# PWYLLGOR CRAFFU
# DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD

**1 CHWEFROR 2022**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.D. James (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
J.M. Charles, T.A.J. Davies, J.A. Davies, K. Davies, S.J.G. Gilasbey, T.M. Higgins, E. Morgan, B.D.J. Phillips, J.S. Phillips, D. Thomas, A. Vaughan Owen ac A.D.T. Speake
Cynghorydd K. Madge yn lle P.M. Edwards.

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd C.A. Davies, Aelod y Cabinet dros Cymunedau a Materion Gwledig;
Y Cynghorydd H.A.L. Evans, Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd;
Y Cynghorydd P.M. Hughes, Aelod y Cabinet dros Diogelu'r Cyhoedd;
Y Cynghorydd D.M. Jenkins, Aelod y Cabinet dros Adnoddau.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
N. Daniel, Pennaeth Gwasanaethau TGCh; Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Cynllunio
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff;
K. Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Cynorthwyol;
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol;
R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd;
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel;
S. Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth;
D.W. John, Rheolwr Gwasanathau Amgylcheddol;
R. James, Cyfrifydd Grŵp;
M. Roberts, Swyddog Polisi Ansawdd yr Amgylchedd Lleol;
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau;
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Rhith-Gyfarfod: 10:00yb - 12:00yp**

**[Sylwer:** Cytunodd y Cadeirydd, ar ôl cael cais gan y Cynghorydd Philip Hughes, yr Aelod Cabinet dros Ddiogelu'r Cyhoedd, i newid trefn yr eitemau ar yr agenda, felly rhoddwyd sylw i Eitem 6 cyn Eitem 4. Fodd bynnag, er hwylustod, mae'r cofnodion hyn yn adlewyrchu trefn y materion ar agenda'r cyfarfod.]

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd P. M. Edwards.

Croesawyd Mr Rhodri Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd, yn ffurfiol i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Mynegodd y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, gydymdeimlad â theulu'r diweddar Gynghorydd Mair Stephens.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

| Y Cynghorydd | Rhif(au) y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| D. Phillips | 4 – Ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2022/23 i 2024/25 (Atodiad C - Crynhoad Taliadau) | Mae ei frawd yn Fridiwr Cŵn Trwyddedig |

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch unrhyw chwip waharddedig.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 4. YMGYNGHORI YNGHYLCH STRATEGAETH Y GYLLIDEB REFENIW 2022/23 TAN 2024/25

[SYLWER: Datganodd y Cynghorydd D. Phillips fuddiant yn Atodiad 'C' i'r adroddiad (Crynhoad Taliadau) ac nid oedd wedi siarad na phleidleisio ar yr Atodiad hwnnw].

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod o'r Cabinet dros Adnoddau ar Strategaeth Cyllideb Refeniw'r Cyngor 2022/23 hyd at 2024/25, fel y'i cymeradwywyd gan y Cabinet at ddibenion ymgynghori yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2022. Roedd yr adroddiad yn darparu'r sefyllfa bresennol i'r Aelodau ynghylch y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2022/2023, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2023/2024 a 2024/2025, yn seiliedig ar ragamcanion ynghylch gofynion gwariant y swyddogion ac yn ystyried y setliad amodol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 21 Rhagfyr 2021. Roedd hefyd yn adlewyrchu cyflwyniadau adrannol cyfredol ar gyfer cynigion am arbedion ar ôl ystyried effaith pandemig Covid-19 ar gyflawni'r arbedion hynny.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y setliad dros dro gan Lywodraeth Cymru eleni gryn dipyn yn uwch na'r hyn y cynlluniwyd ar ei gyfer. Fodd bynnag dywedodd hefyd fod y pwysau oedd ar wariant yr Awdurdod hwn ac Awdurdodau Lleol yn fwy nag erioed o'r blaen. Roedd y setliad dros dro yn gynnydd cyfartalog o 9.4% ledled Cymru ar setliad 2021/22. Roedd cynnydd o 9.2% (£26.335m) yn ffigurau setliad Sir Gâr, gan fynd â'r Cyllid Allanol Cyfun i £311.957m ar gyfer 2022/23 a oedd yn cynnwys £302k mewn perthynas â Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol.

Ar draws holl gyllidebau'r Cyngor, roedd dilysu'n ychwanegu £23m, sef yr uchaf o dipyn rydym wedi gorfod caniatáu ar ei gyfer yn y blynyddoedd diwethaf.

Roedd y gyllideb hefyd yn cynnwys £12.5m ar gyfer pwysau gwariant adrannol newydd a glustnodwyd gan adrannau ac nad oedd modd eu hosgoi os ydym am barhau i ddarparu ein prif wasanaethau ar y lefel bresennol. O ran y cynnydd mewn chwyddiant, roedd yn llawer mwy na'r norm ac roedd yn adlewyrchu'r pwysau oedd ar wasanaethau presennol y Cyngor.

O ran y cynigion arbedion (Atodiad Aii), eglurodd yr Aelod Cabinet fod yr ymateb parhaus i'r pandemig wedi effeithio ymhellach ar gyflawni arbedion effeithlonrwydd.

Serch hynny, roedd strategaeth cyllideb y Cyngor wedi cyflwyno tua £3.8m o arbedion y flwyddyn nesaf a £7.9m arall dros y ddwy flynedd ganlynol.
Mewn perthynas â maes gorchwyl y pwyllgor hwn, roedd cyfanswm y cynigion presennol tua £886k ym mlwyddyn 1 a £1.6m arall dros y ddwy flynedd ganlynol.

Roedd Strategaeth y Gyllideb yn cynnig cynnydd o 4.39% yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2022/23, yn unol â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a byddai'r cynnig hwnnw'n cael ei ystyried fel rhan o'r broses o gwblhau'r gyllideb dros y mis nesaf a lle cafodd yr Awdurdod eglurhad pellach ynghylch costau a chyllid grant gyda'r bwriad o gyfyngu ar y cynnydd yn y Dreth Gyngor cyn belled ag y bo modd. Byddai cynigion terfynol y gyllideb wedyn yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ddiwedd mis Chwefror, i sicrhau bod cyllideb gytbwys yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor Sir.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth gyllidebol fanwl ganlynol a oedd wedi'i hatodi i'r Strategaeth ac a oedd yn berthnasol i'w faes gorchwyl:

- **Atodiad A(i)** – Crynodeb effeithlonrwydd ar gyfer Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd
- **Atodiad A(ii) –** Crynodeb effeithlonrwydd ar gyfer Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd
- **Atodiad B** – Adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd
- **Atodiad C** – Crynhoad Taliadau ar gyfer Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Codwyd yr ymholiadau a'r pryderon canlynol mewn perthynas â thaliadau parcio a'r cynnig i gyflwyno taliadau mewn rhagor o feysydd parcio fel y nodir yn Atodiad Aii yr adroddiad:-

  - Gofynnwyd pa feysydd parcio oedd dan sylw, ble oeddent, beth fyddai'r broses o gyflwyno'r taliadau, ac a fyddai'r Aelodau'n cael gwybod?

  - Gofynnwyd a oedd ystyriaeth wedi cael ei rhoi i'r rhesymau pam yr oedd parcio am ddim yn y meysydd parcio hyn ar hyn o bryd?

  - Mynegwyd pryder ynglŷn â'r cynnydd cyffredinol mewn taliadau parcio a'r effaith bosibl ar y trefi llai a'r busnesau oedd ynddynt.

Wrth ymateb, dywedodd y Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth y byddai'r cynnig i gyflwyno taliadau mewn rhagor o feysydd parcio yn cynnwys y meysydd parcio oedd am ddim ar hyn o bryd:-

- Dafen Steele, Llanelli
- Llanybydder
- Maes Parcio'r Orsaf a Theras Sea View, Porth Tywyn
- Meysydd Parcio Glan-yr-Afon a Ffordd yr Orsaf, Cydweli
- Llansteffan
- Teras Efa, Glanyfferi

Esboniwyd y byddai proses statudol hir yn digwydd ar gyfer creu Gorchymyn Rheoleiddio Traffig, yn amodol ar gymeradwyo strategaeth y gyllideb, er mwyn gallu rhoi'r taliadau ar waith. Fel rhan o'r broses hon, byddai'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig arfaethedig yn destun ymgynghoriad ffurfiol gyda rhanddeiliaid a hysbysiadau cyhoeddus.

Cadarnhaodd y Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth fod sylw wedi cael ei roi i'r rhesymau pam fod rhai meysydd parcio am ddim ar hyn o bryd, a bod hynny wedi cael ei ystyried yn y cynnig presennol.

Mewn perthynas â'r cynnydd cyffredinol mewn taliadau meysydd parcio, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff fod y cynnydd, fel y nodwyd yn yr adroddiad, wedi'i gynllunio ar gyfer Ebrill 2020, ond wedi'i roi ar waith ym mis Ionawr 2021 ac nad oedd unrhyw fwriad yn y strategaeth gyllidebol hon i gynyddu'r taliadau ymhellach.

Yn groes i'r pryderon ynghylch y cynnydd mewn taliadau meysydd parcio, gwnaethpwyd sylw, er bod unrhyw gynnydd mewn taliadau yn ddadleuol ei natur, fod llawer o'r cyhoedd hefyd nad ydynt yn berchen ar gerbydau, ac na fyddai'r cynnydd mewn taliadau yn effeithio arnyn nhw ond byddai unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor yn effeithio arnyn nhw.

Soniwyd bod taliadau'r meysydd parcio yn nhref Caerfyrddin yn sylweddol uwch na'r rhai yn Rhydaman a Llanelli, ac, er tegwch, gofynnwyd a ellid cynnal adolygiad o daliadau'r meysydd parcio ledled Sir Gaerfyrddin, gyda'r bwriad o sicrhau cysondeb. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff y byddai'r sylw'n cael ei ystyried, ond byddai'r amrywiant o ran y lleoliad a'r defnydd yn ffactor yn y gyfradd daliadau wahanol. Yn ogystal, rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y taliadau'n incwm pwysig i alluogi gwaith cynnal a chadw angenrheidiol i gael ei wneud ar y meysydd parcio.

Gwnaed sylwadau pellach ynglŷn â'r sefyllfa economaidd a'r gwahaniaeth o ran nifer ymwelwyr rhwng Rhydaman, Llanelli a Chaerfyrddin, a'r sefyllfa economaidd oedd y rheswm pam roedd y newidiadau ym meysydd parcio Rhydaman a Llandeilo ar gyfradd is. Mynegwyd pryder y byddai cynnydd mewn taliadau meysydd parcio yn cael effaith andwyol ar drefi llai a'u busnesau.

- Mynegwyd pryder ynglŷn â diffyg gwaith cynnal a chadw a gofal esthetig y seilwaith a'r gosodiadau yn Rhydaman a dywedwyd bod angen cynllun i reoli hyn. Wrth ymateb, eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff fod strategaeth y gyllideb wedi cynnwys y sefyllfa ariannol a'r cynigion i aelodau eu hystyried, ac yn anffodus nid oedd y maes cynnal a chadw hwn ar gael mwyach.

- Wrth gyfeirio at Arloesi Diogelwch ar y Ffyrdd, gofynnwyd am eglurhad sut y byddid yn cael incwm a nawdd. Eglurodd y Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth fod y tîm, wrth edrych sut y gellid cael incwm ychwanegol, wedi dod o hyd i enghreifftiau ledled y wlad lle'r oedd gweithgareddau diogelwch ar y ffyrdd wedi denu nawdd. Nodwyd bod cyfle posibl i sicrhau incwm cymedrol drwy ddefnyddio gwasanaethau fel gwasanaeth a hyfforddiant hebryngwyr croesfannau ysgol.

- Cyfeiriwyd at y cynnig mewn perthynas â Phriffyrdd - 'yn amodol ar y sefyllfa ariannol ddim yn newid, gorfodir y gwasanaeth i leihau lefel y gwaith cynnal a chadw cyffredinol ymhellach' fel y nodir yn Atodiad Aii yr adroddiad. Gan gydnabod bod cyflwr y priffyrdd yn dibynnu ar hyn o bryd ar y cynigion buddsoddi sylweddol parhaus, mynegwyd pryder cryf y byddai gostyngiadau pellach yn y gyllideb yn niweidiol i gyflwr y ffyrdd yn Sir Gaerfyrddin. Yn dilyn consensws cyffredinol y Pwyllgor i ddiogelu'r gwaith cynnal a chadw a gwella amodau priffyrdd y Sir, argymhellwyd felly y dylid gosod y swm a ddyrannwyd o £757k o fewn y gyllideb priffyrdd.

- Gofynnwyd am wybodaeth mewn perthynas â swyddi gwag Hebryngwyr Croesfannau Ysgol a'r amserlenni. Esboniodd y Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth, er bod proses recriwtio barhaus ar gyfer Hebryngwyr Croesfannau Ysgol ar waith, fod rhai anawsterau wedi bod o ran llenwi swyddi gwag ar rai safleoedd. Yn y cyfamser, roedd y tîm yn gweithio gyda'r Gymuned i helpu i ddarparu'r gwasanaeth hwn i ysgolion.

- Mewn ymateb i ymholiad a godwyd ynglŷn â'r swydd wag yn yr adain Hawliau Tramwy Cyhoeddus, adroddodd y Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth fod cylch cyntaf y broses recriwtio wedi'i gwblhau a byddid yn penodi cyn hir.

- Cyfeiriwyd at adran Rheoli Traffig y Crynhoad Taliadau, Atodiad C. Gofynnwyd a ellid cynyddu ymhellach y cynnydd o 2% mewn prisiau yn unol â chwyddiant? Esboniodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau y byddai'r taliadau'n cael eu lleihau i 2.5% fel y nodwyd yn yr adroddiad, o gofio'r baich oedd ar gyllidebau aelwydydd. Dywedwyd ymhellach na fyddai cynnydd yn yr adain Rheoli Traffig yn cael effaith uniongyrchol ar aelwydydd. Wrth gydnabod bod incwm yn bwysig ac angenrheidiol, ategwyd a chefnogwyd y sylw ar y cynnydd mewn prisiau canrannol, cyn belled nad yw'n effeithio'n uniongyrchol ar aelwydydd.

Yn ogystal, gofynnwyd a fyddai chwyddiant yn cael ei ychwanegu at y taliadau oedd heb gynyddu? Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau y byddai'n ddoeth cynnal adolygiad o'r holl daliadau nad ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar drethdalwyr.

- Cyfeiriwyd at hysbysiadau cosb benodedig a'u taliadau. Dywedwyd bod gwaith megis clirio baw cŵn a chodi sbwriel yn gostus, a bod hysbysiadau cosb benodedig, tra'n cyfrannu tuag at y costau hyn, hefyd yn fath o gosb am ymddygiad anghyfrifol. Felly, gofynnwyd a ellid cynyddu taliadau'r hysbysiadau cosb benodedig? Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff fod y Cyngor, wrth bennu'r taliadau, yn cael ei lywodraethu gan ddeddfwriaeth a bod y taliadau yn y crynhoad wedi'u pennu'n agos i'r terfyn uchaf ac y byddai unrhyw gynnydd pellach tu allan i'r ddeddfwriaeth. Gellid gwneud cynnydd pellach i gyrraedd yr uchafswm yn y dyfodol mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet perthnasol. Mynegwyd yn gryf bod adolygiad yn cael ei gynnal ar bob tâl hysbysiad cosb benodedig a sicrhau eu bod yn cael eu gosod i derfyn uchaf y ddeddfwriaeth cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

**PENDERFYNWYD yn amodol ar ystyried sylwadau'r Pwyllgor fel rhan o'r ymgynghoriad:-**

**4.1 bod yr Ymgynghoriad ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2022/23 – 2024/25 yn cael ei dderbyn;**

**4.2 bod y Crynhoad Taliadau ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd, fel y manylir yn Atodiad C i'r adroddiad, yn cael ei dderbyn.**

## 5. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2021/22

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31 Hydref 2021, mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2021/22.

Adroddwyd bod yr amcanestyniadau'n adlewyrchu'r ad-daliadau a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwariant ychwanegol oedd yn gysylltiedig â Covid-19 drwy'r gronfa galedi a hefyd i wneud iawn am golli incwm o wasanaethau roedd y pandemig wedi effeithio arnynt. Roedd adain Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd yn rhagweld tanwariant o £256K ar y gyllideb refeniw ac amrywiant net o £17,160K o gymharu â chyllideb net gweithio o £18,270k gan roi -£1,110k.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i ymholiad a godwyd mewn perthynas â'r Casgliad Gwastraff Gwyrdd, eglurodd Rheolwr y Gwasanaethau Amgylcheddol mai canlyniad cynnydd yn y cwsmeriaid oedd y gwarged a chadarnhaodd fod y gwasanaeth ar y trywydd iawn i gwrdd â'i gostau.

- Wrth ymateb i ymholiad a godwyd ar y taliadau am gyfleusterau cyhoeddus, dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Amgylcheddol nad oedd y cynnydd arfaethedig wedi'i roi ar waith oherwydd y pandemig.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

## 6. CYNLLUN RHEOLI ANSAWDD YR AMGYLCHEDD LLEOL 2022 - 2026

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad ar Gynllun Rheoli Ansawdd yr Amgylchedd Lleol 2022-2026, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a'r Aelod Cabinet dros Ddiogelu'r Cyhoedd.

Roedd y cynllun yn cynnwys cyfeiriad rheoli sbwriel y Cyngor yn y Sir am y pedair blynedd nesaf a'i nod oedd dangos sut y byddid yn rheoli sbwriel, tra'n cyfrannu at Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor, gan roi pwyslais arbennig ar Amcan Llesiant 10 – Amgylchedd Iach a Diogel; gofalu am yr amgylchedd ar hyn o bryd ac i'r dyfodol.

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i ymholiad a godwyd ynglŷn â nifer y swyddogion oedd ar gael yn y tîm gorfodi, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff fod 8 swyddog gydag 1 swydd wag ar hyn o bryd. Felly roedd cyfanswm o 9 aelod o staff yn y tîm gorfodi.

- Cyfeiriwyd at adran 11.2 – Grwpiau Gwirfoddol a Sefydliadau Eraill. Gofynnwyd am ragor o wybodaeth ynghylch cyhoeddusrwydd gwybodaeth i annog a chynorthwyo aelodau o'r cyhoedd a Chynghorau Tref/Cymuned i fynd ati i sefydlu grwpiau i lanhau pentrefi ac ardaloedd gwledig. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd y byddai hyn yn berthnasol i'r fenter Cymoni Cymuned a oedd yn cael ei hailgyflwyno. Eglurodd Rheolwr y Gwasanaethau Amgylcheddol ymhellach i'r aelodau fod y fenter 'Cymoni Cymuned' yn gweithio i ymgysylltu â chymunedau lleol i chwilio am wirfoddolwyr i fod yn hyrwyddwyr codi sbwriel a fyddai wedyn yn trefnu digwyddiadau codi sbwriel yn lleol. Dywedodd y Swyddog Polisi a Strategaeth, yr Amgylchedd a Gorfodi, fod 52 o grwpiau wedi'u cofrestru ar draws Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd, a'i fod yn gweithio'n agos gyda'r tîm asesu risg ynghylch yswiriant priodol ar gyfer gwirfoddolwyr. Roedd mentrau eraill yn effeithiol gan gynnwys prosiect Caru Cymru a Cadwch Brydain yn Daclus.

- Dywedodd y Swyddog Polisi a Strategaeth, yr Amgylchedd a Gorfodi, mewn ymateb i ymholiad mewn perthynas â chasglu sbwriel ar hap, fod Googleform ar-lein wedi cael ei chyflwyno a oedd yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i hysbysu'r Awdurdod am y digwyddiad/gweithgaredd codi sbwriel, a fydd hefyd yn casglu'r data o ran ble fyddai'r bagiau sbwriel a byddai trefniadau'n cael eu gwneud i'w casglu.

- At hynny, mewn ymateb i ymholiad a godwyd ynghylch cael gafael ar y bagiau coch yn benodol ar gyfer codwyr sbwriel, eglurodd y Swyddog Polisi a Strategaeth, yr Amgylchedd a Gorfodi, fod Cadwch Brydain yn Daclus yn dosbarthu'r bagiau coch i hyrwyddwyr cofrestredig Cadwch Gymru'n Daclus. Yn ogystal dosbarthwyd y bagiau clir i Hyrwyddwyr Ansawdd Amgylchedd Lleol yr Awdurdod, sef menter a ddatblygwyd dros y pandemig.

- Cyfeiriwyd at y broblem barhaus o faw cŵn. Gofynnwyd a oedd unrhyw gynnydd wedi'i wneud o ran y trafodaethau gyda'r Heddlu ynghylch y Cyngor a Swyddogion Cymunedol yr Heddlu yn rhannu'r ddirwy. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff fod gwaith wedi'i wneud gyda'r heddlu drwy lythyr at y Prif Gwnstabl a hyfforddiant a darparu cosb benodedig i'r heddlu. Dywedwyd er bod yr heddlu'n gefnogol, roeddent yn dibynnu ar yr adnoddau oedd ar gael a'u blaenoriaethau, yn enwedig yn ystod y pandemig. Byddai'r mater hwn yn cael sylw eto yn y dyfodol.

- Mynegwyd yn gryf y dylai troseddwyr sy'n gadael baw cŵn a sbwriel gael eu henwi yn y papurau newyddion lleol ac ar y cyfryngau cymdeithasol a gofynnwyd pa mor rhagweithiol oedd y Cyngor ar y mater hwn? Sicrhawyd yr aelodau gan yr Aelod Cabinet dros Ddiogelu'r Cyhoedd fod gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i gynyddu nifer yr hysbysiadau cosb benodedig oedd yn y papur, gan gydnabod bod cost yn perthyn i hyn.

- Mynegwyd pryder ynghylch baw cŵn mewn parciau a pheryglon tocsocariasis, sef haint y gellir ei ddal drwy ddod i gysylltiad ag ysgarthion anifeiliaid. Yn ogystal, dywedwyd bod cynllun rheoli clir ar glirio sbwriel yn bwysig. Atgoffwyd y Pwyllgor gan yr Aelod Cabinet dros Ddiogelu'r Cyhoedd am yr ymgynghoriad ar y Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus, lle roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i barciau a meysydd chwaraeon. Yn ogystal, pwysleisiodd yr Aelod Cabinet fod dyletswydd ar y cyhoedd hefyd i beidio â gollwng sbwriel yng nghefn gwlad ac i fynd â'u sbwriel adref gyda nhw. Ychwanegodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff mai newid ymddygiad fyddai'r ateb gorau a bod aelodau'r tîm sbwriel yn bresennol yng nghanol trefi bob dydd. Fodd bynnag, roedd ardaloedd gwledig yn dibynnu ar wirfoddolwyr oherwydd prinder adnoddau.

- Gofynnwyd a oedd modd darparu offer casglu sbwriel i Gynghorau Tref a Chymuned a grwpiau gwirfoddol? Eglurodd y Swyddog Polisi a Strategaeth, yr Amgylchedd a Gorfodi, fod hwb casglu sbwriel yn Nhref Caerfyrddin lle gellid cael gafael ar offer a bagiau. Yn ogystal, gellid ystyried y dull o alluogi Cynghorau Cymuned i gael offer yn barhaol fel rhan o'r adolygiad o'r fenter 'Cymoni Cymuned'. Fel arall, opsiwn arall o ran cael mynediad at offer fyddai drwy Cadwch Gymru'n Daclus, a fyddai'n cyfathrebu â phobl oedd yn awyddus i sefydlu hybiau casglu sbwriel ychwanegol yn eu hardal.

- Gofynnwyd am wybodaeth mewn perthynas â'r sefyllfa gyfreithiol o ran defnyddio teledu cylch cyfyng mewn Cynghorau Tref a Chymuned i ddal troseddwyr? Eglurodd y Swyddog Polisi a Strategaeth, yr Amgylchedd a Gorfodi, fod yn rhaid bod yn ofalus wrth ddefnyddio teledu cylch cyfyng a bod agwedd negyddol yn bodoli tuag at ddarparu teledu cylch cyfyng at ddibenion troseddau baw cŵn. Yn y gorffennol, caed gwybodaeth gadarn fel arfer gan berchnogion cŵn cyfrifol, yr oedd y swyddogion yn ymateb iddi'n briodol. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff fod Cynghorau Tref a Chymuned yn defnyddio teledu cylch cyfyng i wneud hynny gyda diwydrwydd.

- Cyfeiriwyd at y Cynllun Gweithredu Ansawdd Amgylchedd Lleol. Wrth nodi'r gwaith o 'Ddatblygu a'r strategaeth a'r cynllun gweithredu cadarn i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon (1) a (2), dywedwyd byddai'r Pwyllgor yn cynnal Adolygiad Gorchwyl a Gorffen ar Dipio Anghyfreithlon a gofynnwyd sut y byddai hyn yn cael ei wneud? Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Amgylcheddol y byddai cynnwys y Grŵp Gorchwyl a Gorffen fel rhan o'r adolygiad yn allweddol wrth ddatblygu'r strategaeth.

**PENDERFYNWYD ARGYMELL I'R CABINET y dylid cymeradwyo Cynllun Rheoli Ansawdd Amgylchedd Lleol 2022-2026.**

## 7. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Ystyriodd y Pwyllgor y rhestr o eitemau i gael eu cynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf oedd i'w gynnal ar 7 Mawrth 2022, a rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor wneud cais am unrhyw wybodaeth benodol yr hoffai'r Aelodau ei chynnwys yn yr adroddiadau.

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor ei fod wedi cael cais i gynnwys adroddiad am y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (HWRC) ar agenda'r cyfarfod nesaf. Cynigiodd y Cadeirydd fod y cais yn cael ei dderbyn, gan fod yr adroddiad yn ceisio darparu strategaeth hygyrchedd ar gyfer y gwasanaeth HWRC yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol, a chafodd y cynnig ei eilio.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**7.1 nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 7 Mawrth 2022;**

**7.2 cynnwys adroddiad HWRC ar agenda'r cyfarfod nesaf – 7 Mawrth 2022.**

**7.3 nodi Blaenraglen Waith ddiwygiedig y Pwyllgor 2021/22.**

**8. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 22 RHAGFYR 2021**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 22 Rhagfyr 2021 yn gofnod cywir.**

| ________________________ | ________________________ |
|---|---|
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |